University of Central Lancashire UCLan | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Connect Centre | Centre for Justice Innovation | Prifysgol Bangor University

# Gwella'r Llysoedd Teulu




## Am beth oedd yr ymchwil?

Gall mynd i'r llys fod yn anodd i blant a theuluoedd. Yn Dorset a Gogledd Cymru roedd y llysoedd teulu eisiau defnyddio proses newydd i'w wneud yn well i blant a theuluoedd.

Roedd ymchwilwyr eisiau gwybod mwy am hyn. Felly, gofynnwyd i rai plant a theuluoedd am eu profiadau. Gofynnwyd i bobl sut beth oedd cael llys yn gwneud penderfyniad am eu teulu.

Gwnaethom siarad gyda 39 o rieni a gofalwyr (25 mam, 13 tad ac 1 taid neu nain) a 9 o blant a phobl ifanc (6 oed a hŷn) o Dorset a Gogledd Cymru. Dyma wnaethom ei ganfod..

# Cael cymorth tra'n aros i'r llys teulu wneud penderfyniad



"Roeddwn yn teimlo'n drist iawn oherwydd wnes i ddim clywed dim gan yr FCA wedyn. Ac yna roeddwn yn teimlo ar goll ac yn ddryslyd"

***Person Ifanc Dorset***

"Roeddent yn dal i ddweud 'tyden ni ddim yn gwybod sut mae'n mynd i ddigwydd'...felly doedden ni ddim yn siŵr iawn beth oedd yn digwydd. Felly, doedden ni ddim wir yn teimlo'n gyfforddus"

***Person Ifanc Gogledd Cymru***

- Mae teuluoedd sy'n mynd drwy'r broses eisiau mwy o wybodaeth am y llys teulu.
- Mae plant a phobl ifanc eisiau gwybod pryd a ble byddant yn siarad gyda Chynghorydd Llys Teulu neu weithiwr cymdeithasol cyn i hyn ddigwydd. Maent hefyd eisiau gwybod beth fydd yn digwydd ar ôl iddynt siarad gyda'r gweithiwr.



Mae **Cynghorwyr Llys Teulu Cafcass/ Cafcass Cymru** yn gwneud yn siŵr bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed yn y llys a bod penderfyniadau yn cael eu gwneud er eu lles gorau.



**Mae Gweithwyr Cymdeithasol** yno i helpu teuluoedd gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.

# Gwrando ar blant a phobl ifanc

"Oherwydd fel y bobl Cafcass, roeddent yn gwrando arnom. Roeddem yn cael cyfle i'n lleisiau gael eu clywed"

***Person ifanc Gogledd Cymru***

- Mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn falch o siarad gyda Chynghorydd Llys Teulu neu'r gweithiwr cymdeithasol. Mae rhai plant a phobl ifanc eisiau gallu dewis ble mae'r cyfarfodydd hyn yn digwydd.
- Mae llawer o blant a phobl ifanc yn teimlo'n nerfus am siarad gyda Chynghorwyr Llys Teulu neu weithwyr cymdeithasol. Mae plant a phobl ifanc yn falch pan mae Cynghorydd Llys Teulu neu weithwyr cymdeithasol yn gwneud iddynt deimlo'n gyfforddus a gwrando arnynt.
- Mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn hapus gyda beth mae'r llys yn benderfynu.
- Weithiau, mae plant a phobl ifanc yn teimlo na wrandewir ar eu barn pan mae'r llys yn gwneud eu penderfyniad, sy'n gallu gwneud iddynt deimlo'n drist.



"Wnes i a fy mrawd... son wrth y gweithiwr Cafcass fy mod eisiau dewis os ydw i'n mynd ai peidio...tydw i ddim yn meddwl eu bod wedi cymryd hynny i ystyriaeth, a doedden nhw ddim wir yn gwrando arnom"

***Person Ifanc Dorset***

"Roedd y gweithiwr Cafcass Cymru  yn dod â theganau imi chwarae gyda nhw, yr oeddwn yn ei hoffi ac yn gwneud imi deimlo'n well"

***Person Ifanc Gogledd Cymru***

## Cael cymorth tra'n aros i'r llys teulu wneud penderfyniad

- Mae mynd trwy'r llys teulu yn anodd i rai teuluoedd, yn arbennig y rhai â llawer o broblemau eraill gartref.
- Mae teuluoedd sy'n cael amser caled weithiau angen cefnogaeth ychwanegol. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth, ond hoffai rai fwy.



"Roedd gennyf eiriolydd oedd yn neis iawn chwarae teg. Hi oedd yr unig un wnaeth wrando arnaf. Rhoddodd gefnogaeth imi am ychydig ond yna daeth i ben"

***Person ifanc, Dorset***

# Aros i'r llys teulu wneud penderfyniad



"Roedd o'n ryddhad cael y cyfan drosodd. Roeddwn yn hapus gyda'r canlyniad"

***Person ifanc, Gogledd Cymru***

- Gall plant a phobl ifanc deimlo'n ofidus a dan straen tra maent yn aros i'r llys wneud penderfyniad.
- Mae rhieni sydd wedi bod drwy broses llys gwahanol o'r blaen yn dweud bod y broses newydd yn teimlo'n gynt.
- Mae rhai teuluoedd eisiau Cynghorydd Llys Teulu neu weithiwr llys i gysylltu â nhw ar ôl i'r llys wneud penderfyniad fel y gallant weld a yw'r penderfyniad yn gweithio ai peidio.

"Roeddwn yn ofnus iawn na fyddwn yn gallu gweld fy chwiorydd byth eto...roeddwn yn mynd drwy lot ac roeddwn yn dioddef llawer o orbryder a straen ohono. Roedd yn teimlo fel ei fod yn cymryd amser hir"

***Person ifanc, Gogledd Cymru***



# Beth ydym wedi'i ddysgu?

**Dyma'r pethau rydym yn meddwl sy'n bwysig:**



## Rhannu mwy o wybodaeth

Rhoi mwy o wybodaeth i blant, pobl ifanc a rhieni am yr hyn sy'n digwydd nesaf.



## Sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed

Gadael i blant a phobl ifanc benderfynu ble i gwrdd gyda'r Cynghorydd Llys Teulu neu'r gweithiwr cymdeithasol. Gwrando ar yr hyn maent eisiau wrth wneud penderfyniadau - ble mae hyn yn ddiogel ac yn bosibl..



## Cynnig mwy o gefnogaeth

Sicrhau bod teuluoedd yn cael digon o gefnogaeth ac yn cael eu cadw'n ddiogel. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan mae pethau'n anodd iddynt.



## Gwneud penderfyniadau'n sydyn

Cadw proses y llys mor sydyn â phosibl i helpu teuluoedd deimlo'n llai pryderus a gofidus. Ond peidiwch â'i ruthro a all beri straen hefyd. Gadewch i blant wybod beth sy'n digwydd tra maent yn aros.

Diolch i'r holl blant, pobl ifanc a theuluoedd wnaeth gymryd rhan yn y gwerthusiad hwn.

Os hoffech ragor o wybodaeth am y prosiect, cysylltwch â:
Dr Charlotte Barlow, **c.barlow@leeds.ac.uk** neu **connectcentre@uclan.ac.uk**